# Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr

# Meini Prawf Cymhwysedd

Nod cynllun Lansio Busnes Sir Gâr yw helpu unigolion i roi cynnig ar eu syniad busnes. Ac felly, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf canlynol

1. Heb fod yn barod i ddechrau gweithgareddau masnachu prawf heb gymorth ariannol
2. Dim profiad hunangyflogaeth/masnachu prawf blaenorol NEU rywfaint o brofiad cyfyngedig ond mae angen cymorth ariannol i ddatblygu gweithgareddau masnachu prawf ymhellach
3. Heb fod yn cynnal gweithgareddau masnachu prawf ar hyn o bryd yn ystod y broses ymgeisio
4. Heb fod yn hunangyflogedig ar hyn o bryd – mae unigolion ag unrhyw statws cyflogaeth arall yn gymwys i wneud cais, gan gynnwys rhai sy'n gyflogedig llawn amser

# Gwariant

Bydd y dyfarniad ariannol yn berthnasol i wariant cyfalaf a/neu refeniw sy'n cael ei gynnwys yn y rhestr ganlynol:

**Gwariant cyfalaf:**

- Prynu offer newydd neu ail-law (peiriannau, offer arbenigol ac ati.)
- Caledwedd TG a Thelathrebu os yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyflawni'r prosiect
- Prynu a gosod offer at ddibenion creu lle masnachu, e.e. cysgodfa, gasebo, bwrdd masnachu ac ati.
- Deunyddiau traul ar gyfer creu cynhyrchion
- Stoc

**Gwariant refeniw arbenigol:**

- Hyfforddiant arbenigol/technegol (nid yn achrededig o reidrwydd)
- Ymgynghoriaeth arbenigol (wedi'i hasesu fesul achos)
- Ardystiad Sicrhau Ansawdd, e.e. tystysgrif hylendid bwyd (wedi'i asesu fesul achos)

- Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu aelodaeth o Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Marchnad (taliad blynyddol untro yn unig)
- Datblygu gwefannau dwyieithog, datblygu e-fasnach a phrynu meddalwedd

**Mae gwariant anghymwys yn cynnwys:**

- Gwariant refeniw cyffredinol megis costau staff neu unrhyw drethi eraill, hurbrynu/prydlesu
- Ffioedd amodol a chostau yr ymrwymwyd iddynt neu a wariwyd cyn cynnig a derbyn y fwrsariaeth
- Costau cyfalaf gweithio fel rhent, ardrethi, gweinyddu
- Costau gwaith a wneir ar eiddo sy'n ofyniad statudol o dan y gyfraith, gan gynnwys caniatâd cynllunio
- Eitemau i'w defnyddio mewn arferion cosmetig neu feddygol ymledol, fel offer Botox

Ni ddylid gwario unrhyw arian cyn i'r cais gael ei gymeradwyo gan na ellir rhoi'r fwrsariaeth yn ôl-weithredol. Nid yw'r hyn sy'n cael ei brynu ag arian parod yn gymwys.

## Sectorau Anghymwys

Ni fydd ceisiadau sy'n cynnwys syniad busnes sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol yn cael eu hystyried:

- Pwrpasau pleidiol-wleidyddol
- Hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol
- Hapchwarae
- Pornograffi
- Cynnig gwasanaethau rhywiol
- Unrhyw fath o weithgaredd anghyfreithlon; neu
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, ym marn y Cyngor, ddwyn anfri ar y Cyngor ac sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau, cynhyrchion a thriniaethau mewnwthiol sydd heb eu rheoleiddio, modelu noeth neu hanner noeth, canolfannau hapchwarae, gwasanaethau gwelyau haul, therapïau amgen, cynhyrchion a meddyginiaethau, aciwbigo, siopau fêps, siopau tybaco, dylanwadu drwy gyfryngau cymdeithasol, cwnsela, hyfforddi ffordd o fyw, tatŵyddion, adeiladu hapfasnachol, triniaethau meddygol cyflenwol, cynhyrchion cosmetig, gweithdrefnau esthetig, cynhyrchion olew CBD, cryptoarian.

# Telerau ac Amodau

1. Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr yn daliad wedi'i ariannu'n llawn o hyd at £1,000 ar gael i unrhyw unigolion yn Sir Gaerfyrddin dros 18 oed sydd â diddordeb mewn masnachu prawf syniad busnes

2. Rhaid cyflwyno cynlluniau busnes a rhagolygon ariannol, gan gynnwys rhagolwg llif arian 12 mis, ynghyd â ffurflen gais wedi'i llenwi. Rhaid cyflwyno'r rhain ar neu cyn y dyddiad cau terfynol ar gyfer ceisiadau, sef 30 Hydref 2026. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn

3. Mae ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n rheolaidd fesul achos ac mae'r fwrsariaeth yn cael ei chymeradwyo a'i dyfarnu gan banel yn y tîm Datblygu Economaidd

4. Gall y gronfa gau cyn 30 Hydref 2026 os bydd wedi'i dyrannu'n llawn

5. Bydd cynnig ariannol y Fwrsariaeth Lansio yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol: Bydd 100% o'r dyfarniad yn cael ei ryddhau ymlaen llaw, a bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o'r gwariant, gan gynnwys derbynebau a datganiadau banc cyfatebol o fewn 2 fis i'r taliad.

6. Rhaid darparu tystiolaeth o weithgareddau masnachu prawf o fewn 6 mis i ddyfarnu'r Fwrsariaeth yn y drefn honno, neu 26 Chwefror 2027 (pa un bynnag sydd gynharaf). Gellir gwneud cais am estyniad i'r cyfnod hwn gydag esboniad rhesymol a phenderfynir ar achosion o'r fath yn ôl disgresiwn y Tîm Datblygu Economaidd ond ni fydd yn hwyrach na 26 Chwefror 2027.

7. **Rhaid** i ymgeiswyr llwyddiannus gytuno i ymgysylltu ag aelod o'r Tîm Cymorth Busnes i gasglu tystiolaeth o'r pryniannau a wnaed a'r fasnachu prawf a gynhaliwyd

8. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu newid dyddiadau'r cyllid am unrhyw reswm neu i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'r cyllid yn cael ei drin

9. Mae ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n rheolaidd fesul achos ac mae'r fwrsariaeth yn cael ei chymeradwyo a'i dyfarnu gan banel yn y tîm Datblygu Economaidd

10. Gall y gronfa gau cyn 30 Hydref 2026 os bydd wedi'i dyrannu'n llawn

# Canllaw a Phroses Gwneud Cais

Lawrlwythwch y ffurflen gais o'r wefan:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ymgysylltiad-busnes/bwrsariaeth-lansio-busnes-sir-gar/

**Adran 1: Manylion yr Ymgeisydd**

- Darparu gwybodaeth bersonol gywir gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer y prif ymgeisydd
- Os ydych yn gwneud cais fel partneriaeth, rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ail berson

**Adran 2: Syniad Busnes**

- Ticiwch y bocs sy'n disgrifio orau eich prif lwyfan masnachu
- Yn fras, disgrifiwch beth mae eich busnes yn ei werthu neu'n ei ddarparu, pwy yw eich cwsmeriaid, a sut rydych chi'n bwriadu masnachu
- Mae 1-2 baragraff byr yn ddigon – gallwch roi mwy o fanylion yn eich cynllun busnes

Adran 3: **Gwrthdaro Buddiannau**

- Rhaid i chi ddatgan unrhyw wrthdaro posibl
- Datgan a ydych chi neu berthynas yn cyflenwi unrhyw eitemau yn eich cais
- Datgan a ydych chi (neu berthynas) yn weithiwr neu'n gynghorydd Cyngor Sir Caerfyrddin

**Adran 4: Manylion Prynu**

- Rhestrwch yn union beth rydych chi am i'r fwrsariaeth dalu amdano
- Dylid cynnwys disgrifiad eitem, enw'r cyflenwr a chadarnhau bod dyfynbris ysgrifenedig yn cael ei ddarparu
- Cost fesul eitem a chyfanswm y gost
- Nid yw'r hyn sy'n cael ei brynu ag arian parod yn gymwys
- Gellir grwpio eitemau tebyg a brynwyd gan yr un cyflenwr
- Rydyn ni'n annog pobl i ddefnyddio cyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin lle bynnag y bo modd

**Adran 5: Manylion Banc y Busnes**

- Rhaid i gyfrif banc fod yn enw'r ymgeisydd neu'r busnes
- Rhaid cofrestru cyfrif banc yn yr un cyfeiriad a restrir yn Adran 1

**Adran 6: Datganiad a Rhestr Wirio Cyn Cyflwyno**

- Gwiriwch eich bod wedi cwblhau pob adran a darllenwch y datganiad cyn derbyn
- Rhaid llofnodi ceisiadau cyn y gellir eu hasesu

Llenwch y ffurflen gais a'i dychwelyd i: BusinessSupport@sirgar.gov.uk

Wedyn bydd aelod o'r tîm Cymorth Busnes yn cysylltu â chi i drafod eich syniad busnes a'ch gwariant arfaethedig yn fanwl a dechrau rhoi cymorth o ran eich cais.